



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

<b>Enw:</b>	<i>Coleen Jones, Swyddog Datblygu Gwasanaethau</i>
<b>Sefydliad:</b>	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
<b>Cyfeiriad e-bost:</b>	<i>Coleenjones@welshwomensaid.org.uk/ Sophieweeks@welshwomensaid.org.uk</i>
<b>Rhif ffôn:</b>	<i>02920 541 551</i>
<b>Cyfeiriad:</b>	<i>Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
<b>Dyma farn:</b>	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i roi diwedd ar gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

### Ynghylch Cymorth i Ferched Cymru:

Cymorth i Ferched Cymru yw'r sefydliad ambarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol annibynnol trydydd sector yng Nghymru. Mae ein haelodaeth yn cynnwys 20 o wasanaethau cymorth arbenigol. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywyd ynghyd â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn plant a phobl ifanc, dynion a bechgyn, pobl draws ac anneuaid, a hynny fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU. Fel sefydliad ambarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol, a phob math o drais yn erbyn menywod, a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini yn wasanaethau sydd wedi'u harwain gan anghenion, sy'n ymateb i rywedd ac sy'n holistaidd. Rydym yn cydweithio'n genedlaethol er mwyn integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn darparu Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. ( Ceir rhagor o wybodaeth am NQSS [yma](#)). Oherwydd y cyfyngiad ar nifer y geiriau, mae Cymorth i Ferched Cymru wedi penderfynu ateb detholiad o'r cwestiynau.

### Cais am Dystiolaeth – Ymateb Cymorth i Ferched Cymru:

### “Llwybrau diogel a chyfreithlon”:

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551  
[info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gwneud y cyflwyniad hwn i dynnu sylw at niwed system loches y DU i fenywod – yn arbennig i oroeswyr VAWDASV - sy'n ceisio lloches, gan gynnwys systemau sy'n creu ail drawma a methiant i gefnogi a chynnal hawliau dynol goroeswyr.

Mae system mewnfudo gyfredol y DU yn categoreiddio ffoaduriaid yn fras ac yn eu cosbi ar sail dull eu mynediad i'r DU yn unig. Nid yw adran 12 Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 yn ystyried pofiadau cymhleth a thruenus menywod sydd wedi'u dadleoli drwy rym, beth bynnag fo'r amgylchiadau. Fel yr amlygwyd gan Women for Refugee Women, fel arfer nid oes gan bobl sy'n ffoi rhag perygl uniongyrchol ddewis ynghylch sut maen nhw'n teithio, mae angen iddynt gymryd pa bynnag lwybr y gallant i ddiogelwch.<sup>1</sup> Rydym yn arbennig o bryderus fod y rheini a orfodir i ffoi o'u gwledydd gwreiddiol a chael mynediad i'r DU yn y modd hwn mewn perygl o gael eu categoreiddio fel ffoaduriad 'Grŵp 2' ac felly eu hamddifadu o'r diogelwch sy'n gysylltiedig â statws diogel.

Yn aml nid oes gan ffoaduriaid 'Grŵp 2' hawl i gyllid cyhoeddus, sy'n effeithio'n fawr ar allu goroeswyr i gael mynediad at gymorth. Mae hyn yn dwysáu bregusder unigolion yn fwy fyth ac yn creu potensial ar gyfer cam-drin a chamfanteisio pellach, gan adael goroeswyr trais ar sail rhywedd heb unrhyw fynediad i lety a chymorth priodol a diogel. Yn wir, mae canllawiau statudol y Llywodraeth ei hun ar gam-drin domestig wedi amlygu'r perygl hwn<sup>2</sup>.

Yn ogystal â bod heb hawl i gyllid cyhoeddus, nid oes gan y rheini sy'n dod o dan 'Grŵp 2' unrhyw lwybrau diffiniedig tuag at breswyllo'n sefydlog ac mae ganddynt hawliau cyfyngedig o ran aduniad teuluol.

Rydym hefyd yn pryderu y caiff menywod sy'n ceisio herio cael eu gosod yng 'Ngrŵp 2' eu gorfodi i droi at adolygiad barnwrol, a hynny o fewn amserlen 10 niwrnod. Pryderwn y bydd realiti'r culni hwn yn gadael menywod heb unrhyw gyfle gwirioneddol i herio'r penderfyniadau hyn sy'n newid

<sup>1</sup> <https://www.refugeewomen.co.uk/wp-content/uploads/2021/12/Five-ways-the-Nationality-and-Borders-Bill-threatens-women.pdf>

<sup>2</sup> [Domestic Abuse Statutory Guidance \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/101441/domestic-abuse-statutory-guidance.pdf)





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

bywydau.

Fel yr amlygwyd gan brosiect SEREDA, mae'r system loches gyfredol yn annog "dibyniaeth dreisgar". Mae'r system yn ymestyn camdriniaeth drwy wneud goroeswyr yn ddibynnol ar gyflawnwyr, er enghraifft mewn achosion o fisâu partneriaid, ac felly ni allant ymadael â sefyllfaoedd camdriniol<sup>3</sup> a gwireddu eu hawl i ryddid rhag artaith a thriniaeth annynol fel yr amlinellir gan y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

Mae Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid wedi mynegi pryderon dro ar ôl tro ynghylch deddfwriaeth mewnfudo'r DU, gan dynnu sylw at y ffaith fod penderfyniadau i gategoreiddio ffoaduriaid yn fras a'u cosbi yn mynd yn groes i Erthygl 31 (1) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig 1951, sy'n gwahardd yn benodol osod cosbau ar ffoadur neu geisiwr lloches ar sail mynediad afreolaidd<sup>4</sup>.

Yn arwyddocaol, mae Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid hefyd wedi dyfynnu'r erthygl hon o'r confensiwn er mwyn amlygu'r anghysonderau rhwng adleoli ceiswyr lloches o'r DU yn Rwanda a rhwymedigaethau hawliau dynol y DU<sup>5</sup>. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ailgadarnhau fod adleoli ceiswyr lloches i drydydd gwledydd yn gosod menywod a phlant mewn perygl difrifol o drais pellach ar sail rhywedd. Mae cymhelliad y polisi i weithredu fel rhwystr yn anghyfiawn ac nid yw'n cyd-fynd â rhwymedigaethau hawliau dynion y DU a nodir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, Confensiwn dilynol y Cenhedloedd Unedig a Deddf Hawliau Dynol 1998 sy'n berthnasol i **bob** person o fewn y DU – gan gynnwys y rheini sy'n ceisio lloches.

<sup>3</sup> <https://www.birmingham.ac.uk/documents/college-social-sciences/social-policy/iris/2022/sereda-international-report-briefing.pdf>

<sup>4</sup> <https://www.unhcr.org/62a317d34>

<sup>5</sup> ibid





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

Mae wedi dod yn fwyfwy amlwg yn ystod y misoedd diwethaf **nad oes unrhyw** lwybrau diogel a chyfreithlon i geiswyr lloches. Eto i gyd, cosbir y rheini sy'n cael eu gorfodi i gymryd llwybr 'afreolaidd' i'r DU, gyda mesurau megis Adran 40 y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau sy'n cosbi'r rheini sy'n arfer eu hawl i ryddid a diogelwch. **Nid oes unrhyw ddarpariaeth** yn bodoli i alluogi unrhyw berson o'r tu allan i'r DU gyrraedd, neu wneud cais i gyrraedd y DU, i hawlio lloches, gan dorri rheolau ymhellach ynghylch y gallu i arfer yr hawl hwn.

Yn ogystal â'r sancsiynau hyn, mae Adran 12 y Ddeddf yn cyfeirio at y disgwyliad ar y rheini sy'n cyrraedd y DU i ddatgelu amgylchiadau llawn eu trawma ar unwaith. Cosbir y rheini sy'n methu â datgelu popeth ar unwaith.

Mae Women for Refugee Women, yn ogystal â sefydliadau arbenigol eraill i fenywod, yn parhau i dynnu sylw at y ffaith fod menywod sydd wedi profi trais ar sail rhywedd yn wynebu rhwystrau sylweddol i ddatgelu'r cam-drin a'r trawma hwnnw, a bod y broses o ddatgelu ac ail-fyw'r manylion hyn yn gofyn am amser, cefnogaeth ac empathi.

Caiff y profiad bywyd hwn ei gadarnhau gan ymchwil, gan gynnwys prosiect SEREDA, ond mae'r system gyfredol yn cosbi'r rheini nad ydynt yn medru rhannu'r wybodaeth hon ar unwaith. Yn arwyddocaol, mae mesurau tebyg, megis Adran 55 Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002, sy'n cosbi'r rheini nad ydynt wedi gwneud cais am loches cyn gynted ag y bo'n ymarferol, eisoes wedi'u profi i ymadweithio ag erthyglau a nodir mewn Deddfwriaeth Hawliau Dynol a thorri eu rheolau, fel y profwyd gan achos 'R v Secretary of State for the Home Department ex parte Limbuela' ([2005])<sup>6</sup>.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn adleisio'r galwadau a wneir gan sefydliadau arbenigol eraill i Lywodraeth y DU ddarparu **llwybrau hyfyw, ymarferol a diogel i loches** fel rhan o'i hymrwymiad i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.

<sup>6</sup> <https://justice.org.uk/asylum-human-rights/>





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

### Cymorth cyfreithiol, llety, a chynhaliaeth:

Mae llawer o fenywod sy'n ceisio lloches yn y DU wedi ffoi rhag trais ar sail rhywedd yn eu gwlad wreiddiol<sup>7</sup>, caiff nifer o'r menywod hyn hefyd eu hystyried yn ffoaduriaid 'Grŵp 2' ac felly nid oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Mae bod heb hawl i gyllid cyhoeddus yn rhwystr amlwg i oroeswyr sy'n profi trais a cham-drin a chanddynt statws mewnfudo cyfyngedig neu ansicr yn y DU. Mae'r goroeswyr hyn yn aml yn wynebu amgylchedd gelyniaethus drwy wiriadau mewnfudo sy'n digwydd er enghraifft mewn lleoliadau tai.

Caiff menywod sy'n dod o dan Adran 95 sy'n lletya mewn gwestai £8.24 yn unig yr wythnos, yn hytrach na £40.85, i adlewyrchu eu bod mewn llety sy'n cynnig pob pryd bwyd. At hyn, nid yw'r rheini sydd mewn gwestai cymorth 'argyfwng' Adran 98 – h.y. y rheini sy'n aros am benderfyniad ynghylch eu cais Adran 95 – yn derbyn unrhyw gymorth ariannol o gwbl. Rydym yn ymwybodol o rai menywod sydd wedi treulio wythnosau, ac weithiau fisoedd lawer, mewn llety gwesty heb unrhyw gymorth ariannol.

Mae'r cymorth ariannol annigonol, neu'r diffyg cymorth ariannol, yn ffrwyno ymreolaeth a rhyddid menywod, gan nad oes ganddynt y modd ariannol i adael eu llety neu wneud unrhyw beth y tu allan i'w llety. O'r herwydd, o wybod am ddiffyg goruchwyliaeth y Swyddfa Gartref a chyda gwestai yn aml yn orlawn, nid yw'n syndod mawr fod menywod wedi'u haflonyddu a'u cam-drin yn rhywiol mewn llety gwesty gan fod yr amodau hyn yn ffafriol i drais yn erbyn menywod a merched.<sup>8</sup> Nid yw'n glir beth, os unrhyw beth, y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i wneud mewn ymateb i hyn, ac rydym yn hynod bryderus fod menywod – llawer ohonynt, fel yr amlygwyd gennym, eisoes wedi goroesi cael eu cam-

<sup>7</sup> <https://bills.parliament.uk/publications/42825/documents/705> - Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Women for Refuge Women, Evidence to the Nationality and Borders Public Bill Committee.

<sup>8</sup> Gweler, e.e. <https://www.theguardian.com/uk-news/2021/feb/21/asylum-seekers-subjected-to-sexual-harassment-in-government-hotels>; yn fwy diweddar <https://www.itv.com/news/2022-11-23/500-rape-alarms-given-to-female-asylum-seekers-at-dirty-and-dangerous-hotels>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551  
[info@welshomensaid.org.uk](mailto:info@welshomensaid.org.uk) | [www.welshomensaid.org.uk](http://www.welshomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

drin ar sail rhywedd yn eu gwledydd gwreiddiol – yn cael eu hail erlid ac yn dioddef ail drawma yn y ffordd hon.

Canfu prosiect SERADA fod diffyg llety priodol a diogel yn y pen draw yn cynyddu'r perygl o drais rhywiol a thrais a sail rhywedd<sup>9</sup>, ac felly'n methu â chyflawni'r rhwymedigaethau hawliau dynol sydd gan y DU.

Byddem yn annog dileu'r defnydd o gyfleusterau cadw mewnfudwyr, ac yn annog yn hytrach sicrhau y caiff menywod eu hamddiffyn â chymorth ariannol digonol a thai diogel.

### Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022:

Y llynedd, [amlygodd](#) Cymorth i Ferched Cymru bryderon y sector VAWDASV mewn ymateb i'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau arfaethedig. Mynegwyd yn ddigamsyniol gennym y **byddai'r** bil yn achosi niwed ac y byddai'n tanseilio'n sylweddol ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae Adran 12 yn gwrth-ddweud tystiolaeth hirsefydlog o'r sector trais yn erbyn menywod a merched ynghylch datgeliadau goroeswyr.

Roeddem yn un o 52 o sefydliadau menywod a fynegodd ein pryderon ynghylch effaith y Bil hwn ar fenywod sy'n ceisio lloches, ac fel sefydliad y mae ei aelodau'n cefnogi'n uniongyrchol oroeswyr a chanddynt statws mewnfudo ansicr, rydym wedi gweld gwireddu'r pryderon hyn ers i'r bil gael ei ddeddfu.

Mae defnyddio system ddwy haen fel y'i gweithredwyd gan gymal 11 y bil yn cosbi menywod sydd fwyaf truenus ac agored i niwed, er gwaethaf yr honiad cyfreithiol yn y Ddeddf Hawliau Dynol fod rhyddid rhag artaith a thriniaeth annynol neu ddiraddiol yn hawl absoliwt "*na ellir byth ei*

<sup>9</sup> <https://www.birmingham.ac.uk/documents/college-social-sciences/social-policy/iris/2022/sereda-international-report-briefing.pdf>





Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

*gyfyngu*<sup>10</sup>.

At hynny, mae Erthygl 2 y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn nodi bod yn rhaid gwarchod a chymhwyso pob hawl a rhyddid y cyfeirir atynt yn y Ddeddf, a hynny heb wahaniaethu. Mae hyn yn gwahardd gwahaniaethu ar sail nodweddion megis rhyw a hil<sup>11</sup>. Amcangyfrifir bod dros hanner y bobl ddadleoledig yn fenywod a merched<sup>12</sup>, a bod hyd at 70% o'r mudwyr dan orfodaeth sy'n fenywaidd wedi profi trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd<sup>13</sup> ac felly yn fwy tebygol o ddod i'r DU drwy ddulliau 'afreolaidd'.

Mae'n amlwg bod y ddeddfwriaeth hon a'r system loches gyfredol yn amharu'n anghymesur ar hawliau menywod a merched. Mae hyn yn bryder arbennig o wybod bod y DU wedi dewis cadarnhau Confensiwn Istanbul ac eithrio erthygl 59, sy'n gorfodi gwladwriaeth i ddarparu amddiffyniadau i fenywod mudol, gan adael menywod a merched sydd wedi profi trais ar sail rhywedd mewn perygl pellach.

---

10

[https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/Practice\\_Tool\\_8\\_Providing%20information%20about%20the%20Human%20Rights%20Act%20WEB.pdf](https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/Practice_Tool_8_Providing%20information%20about%20the%20Human%20Rights%20Act%20WEB.pdf)

<sup>11</sup> <https://www.un.org/sites/un2.un.org/files/2021/03/udhr.pdf>

<sup>12</sup> UNCHR 'Forced Displacement' Report, 2019 <https://www.unhcr.org/be/wp-content/uploads/sites/46/2020/07/Global-Trends-Report-2019.pdf>

<sup>13</sup> <https://www.birmingham.ac.uk/documents/college-social-sciences/social-policy/iris/2022/sereda-international-report-briefing.pdf>

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551  
[info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962  
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government